Gwaith tîm

Cysyniadau:	**Cydweithio, dyfalbarhad, gwaith tîm, penderfyniad, gwrando ar gyfarwyddiadau.**
Amcan	**Datblygu'r cysyniad o gydweithio a dangos fel y gellir ei gymhwyso i'n bywyd bob dydd.**
Cyfarpar:	**Pêl droed neu bêl rygbi neu bêl rwyd, bathodyn tîm pêl-droed Cymru.**

Cyflwyniad:
Cyfeirio at y bêl sydd ar y bwrdd a'r bathodyn pêl-droed gyda'r geiriau 'Gorau chwarae, cyd chwarae.' Dyna'n union a wnaeth tîm Cymru yng ngemau Euros yn Ffrainc yn 2016. Chwarae fel tîm.

Stori:

Tîm dan dair ar ddeg oed ydi tîm Nantporth. Yn y gynghrair mae ugain o dimau i gyd. Ar y brig, ers dwy flynedd bellach, mae tîm Coedadda ond ar y gwaelod, yn dal y timau eraill i gyd i fyny, mae tîm Nantporth. Y llynedd dim ond dwy gôl oedden nhw wedi'u sgorio drwy'r tymor ac roedd cant a deuddeg o goliau yn eu herbyn. A mwy na hynny roedden nhw wedi colli pob gêm. Pob un. Dim pwynt o gwbl ar ddiwedd y tymor. Beth oedd y rheswm am hyn tybed?

Roedd pob un o'r bechgyn yn rhoi o'u gorau ond yn methu'n lân â sgorio goliau. Cen oedd y chwaraewr gorau o ddigon. Roedd o ben ac ysgwydd yn well na'r un arall ond roedd o'n chwaraewr hunanol iawn. Fyddai o byth yn pasio i chwaraewr arall. Dyna lle byddai'n driblo heibio un, dau, tri o chwaraewyr ac yna'n colli'r bêl. Byth yn ei phasio i un arall o'r tîm. Roedd o eisiau sgorio bob tro.

Penderfynodd rheolwr y tîm roi pryd o dafod i Cen. 'Mae'n rhaid

i ti ddysgu pasio'r bêl Cen bach,' meddai wrtho. 'Mae 'na ambell chwaraewr mewn safle da i sgorio petait ti ond yn pasio iddo fo.'

Doedd Cen ddim yn hapus efo geiriau'r rheolwr. Pwdodd yn y fan a'r lle a dweud ei fod am ymuno â thîm arall yn y gynghrair. Ond perswadiodd y bechgyn ef i aros yn y tîm.

'Mae'n rhaid i ni wneud rhywbeth i helpu Cen.' meddai'r rheolwr, 'mae o'n chwaraewr mor dda efallai y bydd o cystal â Bale rhyw ddydd dim ond iddo ddysgu pasio a sylweddoli mai gwaith tîm ydi gêm bêl-droed neu hyd yn oed rygbi neu bêl-rwyd.'

Un nos Fercher, noson yr ymarfer, galwodd y rheolwr y tîm ynghyd a dechreuodd eu rhannu'n ddau a chan weithio yn barau rhoddodd fwgwd am lygaid un ac roedd y llall i'w arwain o gwmpas y rhwystrau roedd wedi eu rhoi ar y cae. Roedd yr un oedd heb fwgwd i arwain y llall heb daro'r rhwystrau. Felly roedd gwrando ar gyfarwyddiadau a chyfathrebu yn bwysig iawn. Ond pan oedd Cen yn gwisgo'r mwgwd roedd o'n taro'n erbyn y rhwystrau dro ar ôl tro. Doedd o ddim yn barod i wrando ac roedd ef wedyn yn un gwael am roi cyfarwyddiadau i'w bartner oedd efo'r mwgwd.

Gwelodd Cen drosto'i hun pa mor amharod oedd o i wrando. Yn sicr, roedd wedi dysgu gwers. Ymhen yr wythnos yr oedd gêm olaf y tymor. Gêm galed unwaith eto! Roedd tîm Glanhwfa wedi rhoi cweir i dîm Nantporth o naw gôl i ddim ddechrau'r tymor. Ond y tro hwn roedd Nantporth yn chwarae adref. Cyn mynd ar y cae y pnawn hwnnw meddai'r rheolwr, 'Cofiwch chi rŵan fechgyn, chwarae efo'ch gilydd fel tîm. Gwaeddwch ar eich gilydd a gwrandwch ar eich gilydd.'

Er mawr syndod i'r rhieni oedd wedi dod i gefnogi, dim ond un dim oedd hi ar hanner amser. Fel arfer mi fyddai oddeutu saith dim. Roedd y rheolwr wedi'i blesio efo'r tîm gan eu bod wedi dechrau pasio i'w gilydd a chydchwarae. Bu bron iawn i Robat sgorio gôl pan dderbyniodd y bêl o draed Cen. Ond taro'r post wnaeth o.

Yn yr ail hanner roedd y tîm cartref yn chwarae'n galed ac yn pasio'n dda. Edrychodd y dyfarnwr ar ei oriawr – tri munud i fynd a hithau'n dal yn un gôl i ddim i dîm Glanhwfa. Y munud hwnnw roedd Cen yn rhedeg nerth ei draed i lawr yr asgell. Aeth heibio dau

chwaraewr o dîm Glanhwfa a phasiodd y bêl yn daclus i draed Elis ac ergydiodd yntau'r bêl tu hwnt i afael y gôl-geidwad a dyna lle roedd y bêl yn gwingo yng nghefn y rhwyd. Un gôl yr un. Ymhen dau funud roedd y gêm ar ben. Er nad oedd Nantporth wedi ennill y gêm roedden nhw wedi dysgu mai trwy chwarae fel tîm mae llwyddo. Cofiodd Cen arwyddair tîm pêl-droed Cymru, 'Gorau chwarae, cyd chwarae.' Gobaith am ddyddiau gwell y tymor nesaf!

Trafodaeth bellach:

- Beth fyddech chi'n ddweud oedd gwendid Cen fel chwaraewr pêl-droed?

- Tybed oedd syniad y rheolwr yn un da?

- Pa mor anodd ydi dysgu chwarae fel tîm? Ydi pawb eisiau sgorio gôl?

Dyfyniad o'r Beibl:

Dŷn ni'n gweithio fel tîm i Dduw, a chi ydy'r maes mae Duw wedi'i roi i ni weithio ynddo. 1 Corinthiaid 3:9 beibl.net

Emyn: Yn fy nghalon rhoddodd Iesu: Canu Clod 426

Munud i feddwl:

Mae dod at ein gilydd yn fan cychwyn; mae cadw efo'n gilydd yn gam ymlaen ac mae gweithio efo'n gilydd yn llwyddiant. Henry Ford

Myfyrdod/Gweddi:

O Dduw, efo'n gilydd mi allwn ni wneud cymaint mwy. Amen.